

DAVIES, OWEN HUMPHREY ('Eos Llechid '; 1828 - 1898), chwarelwr, cerddor, ac offeiriad

Enw: Owen Humphrey Davies
Ffugenw: Eos Llechid
Dyddiad geni: 1828
Dyddiad marw: 1898
Rhiant: Sarah Davies
Rhiant: David Humphreys Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: chwarelwr, cerddor, ac offeiriad
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Crefydd; Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd Medi 1828 yng Nghaerffynnon, Llanllechid, Arfon, mab i David Humphreys a Sarah Davies. Dechreuodd astudio llyfrau cerddorol yn ieuanc, a dysgodd ddarllen cerddoriaeth, a meistrolï digon o gynghanedd i gyfansoddi anthem yn 17 oed. Yn 1845 aeth i weithio i chwarel y Penrhyn, a bu yno am 17 mlynedd.

Yn 1848 apwyntiwyd ef yn arweinydd côr eglwys Llanllechid. Yn 1859 fe'i penodwyd yn arweinydd y gymdeithas gorawl (corau eglwysi Llanllechid, Llandegai, Glanogwen, a S. Anne) a chanwyd ganddynt 'Y Meseia' (Handel) a darnau clasurol eraill. Yn 1862 dewiswyd ef yn arweinydd gwyl gorawl eglwysig Llandaf, ac arweiniodd wyliau 1864, 1867 ac 1871. Arweiniodd hefyd wyliau cerddorol arch-ddiaconiaeth Caerfyrddin ac Abertawe yn 1867. Trwyddedwyd ef yn 1869 yn ddarllenydd lleyg gan yr esgob Campbell, Bangor, i Ysgoldy, Maesygroes. Yn 1870 penodwyd ef yn athro cerddoriaeth yng ngholeg hyfforddiadol Gogledd Cymru, Caernarfon, a bu yn y swydd am wrth mlynedd.

Cyfansoddodd y gantawd 'Gwarchae Harlech,' a nifer o anthemau rhagorol. Enillodd wobrwyon am gyfansoddi yn eisteddfod Bethesda, 1851, 1852, a 1853. Cyhoeddwyd ei anthemau yn *Y Cerddor*, *Greal y Corau*, a'r *Gyfras Gerddorol*. Cyfansoddodd a threfnodd nifer fawr o donau. Ysgrifennodd i'r cylchgronau cerddorol, o 1861 hyd ei farwolaeth, erthyglau gwerthfawr ar gerddoriaeth, ac i'r *Haul*, 1886 a 1895, hanes bywgraffyddol o gerddorion Cymreig. Yr oedd yn feirniad craff, a gelwid am ei wasanaeth mewn cyfarfodydd llenyddol ac eisteddfodau.

Ar anogaeth y deon Edwards penderfynodd fynd i'r weinidogaeth. Ordeiniwyd ef yn gurad S. Anne yn 1877, Llanberis yn 1878, Pentir 1888, a'r un flwyddyn daeth yn rheithor Rhiw, Llŷn. Yn 1895 derbyniodd fywoliaeth Llechcynfarwy, Môn, lle y bu hyd ei farw, 11 Awst 1898. Claddwyd ef yn Llanberis.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

Y Geninen, 1886, 52; 1894, 162

Y Cerddor, Awst 1901 a Medi 1905

Greal y Corau cynnwysa geiriadur a grammadeg cerddorol, gwersi ar gynghanedd, ynghyd a darnau detholedig etc. etc., 1861

Brown a Stratton, *British Musical Biography: a dictionary of musical artists, authors and composers, born in Britain and its colonies* (Birmingham 1897)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734079](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Griffith, R. D., (1953). DAVIES, OWEN HUMPHREY ('Eos Llechid '; 1828 - 1898), chwarelwr, cerddor, ac offeiriad. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-HUM-1828>

Griffith

Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Modeld ari
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government